# Stori Cantre'r Gwaelod

Efallai eich bod wedi sefyll ar ben clogwyni neu ar un o draethau tywodlyd Bae Ceredigion ac edrych allan i'r môr, ond oeddech chi'n gwybod, ar noson wyllt a stormus, gallwch hefyd glywed sŵn clychau'n canu yn dod o'r môr.

**Dyma glychau Cantre'r Gwaelod.**
Yn ôl yr hanes, cannoedd o flynyddoedd yn ôl, nid oedd môr o gwbl ym Mae Ceredigion, ond tir Cantre'r Gwaelod.

Brenin y tir prydferth hwn oedd Gwyddno Garanhir. Roedd yn ddyn caredig ac yn frenin doeth. Gwnaeth yn siŵr fod pobl y wlad yn hapus a diogel.

Roedd y tir yn wych ar gyfer tyfu cnydau a ffrwythau amrywiol, yn enwedig grawnwin. Roedd y bobl yn gweithio fel ffermwyr yn y meysydd ffrwythlon ac roedd gan bawb ddigon o fwyd i'w fwyta.

Roedd Gwyddno yn byw mewn palas hardd, Caer Gwyddno, gyda'i wraig a'i blant, Mererid a Gronw. Ond, er bod Cantre'r Gwaelod yn wlad hapus a ffrwythlon, roedd gan y bobl un ofn.

Y môr.



Roedd eu pentrefi a chaeau, yn gorwedd o dan lefel y môr. Felly, er mwyn cadw'r môr allan, adeiladwyd wal enfawr - morglawdd, o amgylch Cantre'r Gwaelod. Gofynnodd Gwyddno i'w gyfaill mwyaf dibynadwy a chyfrifol i ofalu am y morglawdd. Enw ei ffrind oedd Seithennyn. Roedd yn gyfrifol am agor a chau drysau'r morglawdd pob bore a nos i atal y môr rhag llifo i mewn i Cantre'r Gwaelod.

Yn anffodus, nid oedd Seithennyn mor ddibynadwy a chyfrifol ag oedd Gwyddno yn meddwl, ac roedd rhaid i lawer o warchodwyr helpu Seithennyn gadw golwg am unrhyw berygl o'r môr.



Un noson, roedd gwledd enfawr ym mhalas Gwyddno i ddathlu pen-blwydd ei ferch, Mererid. Gwahoddwyd pobl bwysig i'r wledd, a daeth cerddorion o bell ac agos i chwarae eu cerddoriaeth. Dywedodd un o'r hen delynorion, a oedd yn ddall, wrth y Gwyddno fod storm ar y ffordd. Chwarddodd Gwyddno, a dywedodd ni fyddai unrhyw storm yn mentro difetha pen-blwydd ei ferch ef! Roedd Gwyddno yn gobeithio y byddai Mererid yn dod o hyd i ŵr cyfoethog y noson honno.

Ond roedd gan Seithennyn syniadau eraill! Roedd eisiau Mererid ar gyfer ei hun, felly gadawodd y wal yn dawel ac aeth i'r wledd i ofyn i Mererid i'w briodi.



Y noson honno, roedd y gwarchodwyr ar y wal yn aros am Seithennyn i ddod i gau'r drysau, ond nid oeddent yn sylweddoli ei fod yn y wledd, yn yfed gwin ac yn dawnsio gyda Mererid. Edrychon nhw allan i'r môr a gweld cymylau tywyll, stormus yn casglu yn y pellter. Roedd storm yn dod! Aethant i ddweud wrth Seithennyn, ond ni allent ddod o hyd iddo.

Erbyn hyn roedd y glaw yn tywallt yn drwm a'r gwynt yn udo, ond nid oedd unrhyw olwg o Seithennyn. Fe oedd yr unig un a allai gau'r drysau, felly penderfynodd y gwarchodwyr i adael y wal i edrych amdano.

Ni allai'r bobl yn y wledd glywed y storm tu allan wrth iddynt ganu, dawnsio a mwynhau. Roedd y môr yn rhuo, a'r tonnau yn chwirlio dros waliau'r morglawdd. Ni allai'r gwarchodwyr dod o hyd i Seithennyn yn y palas! Pwy fyddai'n cau'r drysau nawr?

Yn y pen draw, gwelant Seithennyn yn dawnsio gyda Mererid. Rhuthron nhw draw ato a dweud am y storm. Dywedodd wrthyn nhw i fynd yn ôl at y wal, canu'r gloch larwm a chau'r drysau, ac arosodd yn y ddawns gyda Mererid.

Rhuthrodd y gwarchodwyr allan, ond ni chanodd y gloch larwm, ac ni chaeodd y drysau.

Roedd yn rhy hwyr. Welodd neb y gwarchodwyr byth eto.

Taranodd y môr i mewn, a diflannodd Cantre'r Gwaelod o dan y tonnau. Boddwyd y caeau a'r pentrefi'r noson honno, a'r rhan fwyaf o'r bobl hefyd.

Llwyddodd Gwyddno, Mererid a Seithennyn i ddianc. Cytunwyd Mererid i briodi Seithennyn, ac aethant i fyw yng Ngogledd Cymru.

Roedd Gwyddno mor drist a ddigalon, na allai adael ei gartref annwyl. Am flynyddoedd ar ôl y trychineb, gwelwyd yn eistedd ar ben clogwyni Bae Ceredigion, yn syllu allan i'r môr, yn hiraethu am y wlad a gollwyd.